Docusign Envelope ID: 117CFE66-FE81-818D-817D-BECBE1FAE100

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

**GORCHYMYN O DAN ADRAN 21 O DDEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847**

**AR GYFER ATAL RHWYSTR**

---

Ddydd Sadwrn 5ed o Fedi 2026 rhwng 07:00 a 18:00, bydd Sgwâr y Farchnad, Llanymddyfri, yn orlawn ac yn debygol o fod wedi'i rhwystro, o'r gyffordd â Stryd Lydan hyd at y gyffordd â Stryd Cerrig, ar gyfer Marchnad Ffermwyr.

Mae CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, wrth weithredu ei bwerau o dan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, DRWY HYN YN GORCHYMYN, at ddibenion atal rhwystr yn y stryd a enwyd, sef Sgwâr y Farchnad, Llanymddyfri, y bydd y stryd honno'n cael ei chau i bob traffig cerbydau, gan gynnwys beiciau pedal, ddydd Sadwrn 5ed o Fedi 2026 rhwng 07:00 a 18:00, fel bod modd i gerbydau'r gwasanaethau brys gael mynediad i'r stryd heb oedi mewn argyfwng.

Y ffordd arall ar gyfer traffig sy'n teithio i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain fydd mynd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd cefnffordd yr A40 hyd at y gyffordd â Stryd Cerrig. Wrth y gyffordd, troi i'r chwith a pharhau i gyfeiriad y gogledd-orllewin er mwyn dychwelyd i fan sydd i'r gogledd-ddwyrain o'r man lle mae'r ffordd ar gau.

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )
ar y ddogfen hon )
ar yr 28ain o Awst 2026 )
ym mhresenoldeb:- )



20271

Signed by:
Robert EDGECOMBE
207D6E94ACD244F...

**Robert Edgecombe**

**Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol**